# Wythnos 1 / Oedran Iau CA2
# Cyflwyno'r Beibl

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** Mae'r Beibl yn boblogaidd, yn rymus a nerthol, ac yn newid bywydau pobl.

### Adnodau allweddol:

**Eseia 40:8**

*Mae'r glaswellt yn crino, a'r blodyn yn gwywo, ond mae neges yr Arglwydd yn aros am byth!*

**Hebreaid 4:12**

*'Mae neges Duw yn fyw ac yn cyflawni beth mae'n ei ddweud. Mae'n fwy miniog na'r un cleddyf.'*

**Luc 24:32**

*'Dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd, "Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân, wrth iddo siarad â ni ar y ffordd ac esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!"*

### Adnoddau:

Pedair sgrôl gyda'r canlynol wedi'u hysgrifennu arnyn nhw:

- 'Rwyt ti wedi ennill y loteri'
- 'Mae dy Fam yn dy garu di'
- 'Rwyt ti wedi cael dy ddewis i chwarae pêl-droed ar gyfer tîm dy freuddwydion'
- 'Byddi yn tyfu i fyny i fod yn actor enwog'

Map o'r byd neu glôb y gall y plant ymgynnull o'i gwmpas

Bydd angen hefyd cyfleusterau i alluogi'r grŵp i wylio *The Seriously Surprising Story*: www.youtube.com/watch?v=ndtnZV-5QTo

Lluniau clawr blaen deg llyfr plant adnabyddus, neu'r llyfrau go iawn os ydyn nhw gennych chi.


Geiriau Duw

Llawer o ddarnau o bapur (aml-liw yn ddelfrydol, pob un yn dweud 'Geiriau Duw') - cymaint ag y gallwch chi ei wneud a'i stwffio i mewn i Feibl mawr

# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at yr 'adnod allweddol' – os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel y diagram isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn:** ***'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur y gallwch ei ddal i fyny o flaen y sgrin

# Gweithgaredd: Geiriau sy'n cynhesu dy galon

Dewiswch bedwar gwirfoddolwr. Rhowch ddarn o bapur wedi'i rolio i bob gwirfoddolwr. Bydd gan bob darn o bapur un o'r canlynol wedi'i ysgrifennu arno


- 'Rwyt ti wedi ennill y loteri'
- 'Mae dy Fam yn dy garu di'
- 'Rwyt ti wedi cael dy ddewis i chwarae pêl-droed ar gyfer tîm dy freuddwydion'
- 'Byddi yn tyfu i fyny i fod yn actor enwog'

Gofynnwch iddyn nhw ddarllen eu llythyrau yn uchel. Ar raddfa o un i bump (a bod y mwyaf yn bump a'r lleiaf yn un), pa mor gyffrous oedd y geiriau hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo?

**Cymhwyso:** Efallai y bydd yr holl negeseuon hyn yn gwneud ichi deimlo'n gyffrous a gwneud i'ch calon guro ychydig yn gyflymach. Ydych chi'n meddwl y gallai'r Beibl wneud yr un peth, neu wneud i chi deimlo hyd yn oed yn fwy cyffrous? Gadewch i ni ddarganfod mwy.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Sicrhewch fod y sgroliau gyda chi o flaen y sgrin a'u darllen fesul un
- Gofynnwch iddyn nhw ddweud pa un wnaeth eu cyffroi a gwneud i'w calonnau guro ychydig yn gyflymach



# Gweithgaredd: Deg uchaf y Beibl

Sicrhewch fod gyda chi tua deg llyfr gwahanol y bydd y plant yn eu hadnabod yn dda, e.e. Harry Potter, llyfrau T Llew Jones, Dyddiadur Dripsyn ac ati. Gofynnwch iddynt roi’r llyfrau yn nhrefn y rhai mwyaf poblogaidd ac yna gofynnwch iddynt egluro eu dewisiadau. Yna, nesaf, rhowch Feibl iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw ble yn y drefn y byddent am osod y Beibl, a pham?

**Cymhwyso:** Mae yna lawer o lyfrau poblogaidd, adnabyddus a gwych yma. Fodd bynnag, pa un ydych chi’n meddwl sy’n gwerthu fwyaf? (Gadewch iddyn nhw drafod hyn, yna dywedwch: Oeddech chi’n gwybod mai’r Beibl yw llyfr sy’n gwerthu fwyaf yn y byd - bob blwyddyn?)

# Gweithgaredd: Geiriau Duw

**Cymhwyso:** (Bydd angen i chi gael Beibl mawr a’i ddangos i’r plant.) Mae’r Beibl yn boblogaidd oherwydd ei fod yn NERTHOL a GRYMUS. Sut mae’r Beibl yn NERTHOL? Agorwch y Beibl yn llydan, gan adael i’r darnau bach o bapur rydych wedi eu stwffio i mewn ynddo i ddisgyn allan fel conffeti - gorau po fwyaf. Gadewch i’r plant gael darn o bapur yr un a darllen yr hyn y mae’n ei ddweud (maen nhw i gyd yn dweud ‘Geiriau Duw’ arnyn nhw).

**Cymhwyso:** Mae’r Beibl yn boblogaidd ac mae’n bwerus iawn oherwydd ei fod yn LLAWN o eiriau Duw! Yn y Beibl gallwn gwrdd â Duw.

# Gweithgaredd - Calonnau yn llosgi

Esboniwch, ar ôl i Iesu farw ar y groes ac yna dod yn ôl yn fyw, nad oedd rhai o’i ffrindiau’n siŵr a oedd y cyfan yn wir. Roedden nhw’n teithio i le o’r enw Emaus ac yn sgwrsio. Dyma ddigwyddodd:


Gwyliwch *The Seriously Surprising Story*: **www.youtube.com/watch?v=ndtnZV-5QTo**

**Cwestiwn:** Pwy oedd y dieithryn a oedd yn cerdded gyda’r ddau berson? (Iesu)

**Cymhwyso:** Wrth iddyn nhw gerdded, roedden nhw’n yn siarad am y Beibl - sut oedd hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo? (Cyffrous; redden nhw’n mwynhau siarad am Iesu ac am y Beibl)

**Cymhwyso:** Dywedodd Iesu, cyn y datgeliad mawr, wrth y ddau ddilynwr hyn fod y Beibl CYFAN amdano fe! Mae’r Beibl yn dangos i ni sut mae Iesu’n ein caru ni. Sut y daeth Iesu o’r dechrau i’r diwedd, i ddweud, ‘Dyma faint rwy’n dy garu di’ - a dyna pam y bu farw ar y groes.

Mae’r Beibl yn dweud fod calonnau’r ddau ddilynwr ar dân wrth iddynt drafod y Beibl gyda Iesu (heb wybod mai ef oedd ef). Roedd eu calonnau’n gyffrous iawn. Fe wnaethant sylweddoli mae’r rheswm am hyn oedd oherwydd eu bod yn dysgu mwy am y Beibl wrth siarad gyda Iesu. Mae’r Beibl yn boblogaidd. Mae’r Beibl yn bwerus. Mae’r Beibl yn newid bywydau pobl.



# Gweithgaredd: Hanes Robert Jermaine Thomas

(Crynhowch y stori hon, ond cofiwch fod yn sensitif gyda'r manylion yn ôl natur eich grŵp. Gofalwch bod gennych fap o'r byd neu glôb i ddangos ble mae'r lleoedd byddwch yn sôn amdanynt.)

Roedd yna ddyn o'r enw Robert ac roedd yn byw yng Nghymru (dangos ar y map). Roedd Robert yn caru Duw ac yn caru'r Beibl.

Roedd eisiau dweud wrth bawb am Dduw a rhoi copi o'r Beibl i bawb, felly fe ddechreuodd hynny trwy deithio i Tsieina (dangos ar y map) er mwyn dweud wrth bobl yno am Dduw, a rhoi'r Beibl yn rhodd iddyn nhw. Yna clywodd Robert am le o'r enw Corea ac roedd am i'r bobl a oedd yn byw yno hefyd gael y Beibl (dangoswch Corea ar y map). Fodd bynnag, roedd Corea yn lle peryglus i fynd iddo, yn enwedig os oeddech chi'n cario'r Beibl gyda chi ar y daith.

Ond dysgodd Robert iaith pobl Corea (dangoswch y gair am 'Iesu'). 예수

Helpodd Robert y bobl i gyfieithu'r Beibl i'w hiaith, sef Coreeg; ac aeth ar daith mewn llong gyda'r Beibl hwn. Wrth i'w long agosáu at Corea, dechreuodd criw o filwyr saethu tuag ati. Fodd bynnag, llwyddodd Robert i neidio o'r llong. Dechreuodd ddosbarthu Beiblau i unrhyw un y gallai ei weld wrth iddo redeg ar hyd y lan, gan weiddi'n uchel wrth fynd, 'Iesu, Iesu.'

Ond cafodd ei ladd gan y dyn olaf y rhoddodd Robert Feibl iddo. Dywedwyd wrth bobl Corea i ddinistrio'r holl Feiblau, ond yn lle hynny fe ddechreuon nhw ddefnyddio'r tudalennau papur oedd yn y Beibl fel papur wal yn eu tai. Fedrwch chi ddyfalu beth ddigwyddodd wedyn? Fe ddechreuodd pobl ddarllen eu papur wal - sef y Beibl. Cofiwch - geiriau Duw yw'r Beibl; mae'n bwerus a gall newid bywydau pobl. Tra bu i'r bobl ddarllen y Beibl ar eu waliau fe ddaethant i garu Iesu a newidiwyd eu bywydau gan y geiriau grymus.

**Cymhwyso:** Bydd y Beibl yn para am byth oherwydd ei fod yn llawn geiriau Duw. Mae hynny'n eu gwneud yn bwerus. Mae geiriau Duw yn newid bywydau pobl.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Sicrhewch fod gennych fap o'r byd a'r gwledydd perthnasol y mae angen iddynt eu gweld ar eich sgrin - efallai byddai modd cael llun o bob gwlad ar sleid PowerPoint ar wahân
- Gallai lluniau wedi eu hargraffu weithio hefyd

# Gweddi greadigol

Gofynnwch i bob plentyn dynnu un esgid ac eistedd mewn cylch. Ar ôl pob llinell o'r weddi maen nhw'n pasio'r esgid yn eu meddiant un lle i'r chwith.

**Llinell 1:** *Annwyl Arglwydd, diolch am y Beibl* (symud esgid i'r person ar y chwith)

**Llinell 2:** *Diolch bod y Beibl, oherwydd ei fod yn llawn o'th eiriau, mor bwerus* (symud esgid i'r person ar y chwith)

**Llinell 3:** *Pan fyddwn yn ei ddarllen, helpa ni i agor ein calonnau, fel y galli di newid ein bywydau* (symud esgid i'r person ar y chwith )


**Llinell 4:** *Helpa ni i gerdded gyda thi wrth i ni ddarllen y Beibl* (symud esgid i'r person ar y chwith)

*Amen*

Caniatewch i'r plant gael hwyl yn rhoi eu hesgid gywir yn ôl ar eu traed wrth iddynt ddweud 'Amen'.


***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gofynnwch i'r plant sy'n gwylio ddod o hyd i un esgid
- Wrth i bob llinell o'r weddi gael eu darllen, rhaid iddynt ddal eu hesgid, neu os ydynt yn fwy egnïol ac anturus, gallant ddechrau gyda'r esgid ar un troed ac ar ôl y llinell gyntaf ei symud i'r droed arall; ar ôl y llinell nesaf ei symud i'r llaw dde ac ar ôl y bedwaredd linell ei symud i'r llaw chwith





# Gweithgaredd crefft

**Byddwch angen:**


Ychydig o hen fapiau


Siswrn


Glanhawyr pibell



Tâp gludiog

Gofynnwch i bob plentyn roi ei droed ar hen fap a thynnu llun ei amlinelliad ei droed. Torrwch siâp eu hôl troed allan. Yna cymerwch ddau lanhawr pibell a'u defnyddio i greu'r 'V' a geir ar ben fflip-fflop, gan eu procio i mewn i dyllau yn y lleoedd perthnasol ar amlinell y droed a wneir o fap. Fel arall, fe allech chi dorri dau stribed tenau o'r un map a defnyddio tâp gludiog, eu glynu yn eu lle â'r 'V' ar fflip-fflop.

Ysgrifennwch ar y 'fflip- fflop': 'Cerddwch gyda Iesu - darllenwch y Beibl'.

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 2: Gwreiddiau ac Ystyr



GWREIDDIAU AC YSTYR | EXODUS A RHYDDID | ALLTUDIAETH A HEDDWCH | MESEIA A CHARIAD | YSBRYD A CHYMUNED | GOBAITH A CHARTREF